

YN YSTYR RHEOLIADAU'R HEDDLU (YMDDYGIAD) 2020

Penderfyniad y Panel Camymddwyn O ran PC Richard WILLIAMS

Cefndir

1. Mae cefndir yr achos yn codi o ymchwiliad a gynhaliwyd gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH) i honiad fod PC R Williams wedi defnyddio grym gormodol ar Mr Stephen Clark wrth eu harestio am gyflawni ymosodiad cyffredin ar 10 Mai 2023.
2. Ar 10 Mai 2023 aeth PC E Williams a PC R Williams i gartref cyn gymar Mr Clark. Honnodd cyn gymar Mr Clark fod Mr Clark wedi mynd i'w chartref y bore hwnnw ac roedd o dan ddylanwad cyffuriau ("off his face") ar ganabis ac amffetamin ac roedd wedi ceisio ymosod arni ("go for her"). Roedd eu plentyn, oedd oddeutu 10 oed, wedi ceisio ymyrryd a llwyddodd i gael Mr Clark adael yr eiddo. Roedd y plentyn wedi cynhyrfu'n fawr ac yn crio ac roedd yn amharod i siarad hefo'r swyddogion am yr hyn ddigwyddodd. Wrth iddo adael yr eiddo'r bore hwnnw, honnir fod Mr Clark wedi poeri ar y ffenest a'r diwrnod cynt roedd wedi tywallt tun o baent yn yr ardd.
3. Wrth gwblhau cwestiynau sgrinio trais domestig hefo PC E Williams, fe wnaeth cyn gymar Mr Clark ddadlennu ei bod ofn i Mr Clark ddychwelyd i'r eiddo. Fe wnaeth hefyd ddadlennu ei fod wedi dal cylllell at ei gwddf o'r blaen. Dywedwyd wrth y swyddogion hefyd fod gan Mr Clark broblemau iechyd meddwl oherwydd cymryd cyffuriau.
4. Yn dilyn casglu'r wybodaeth hon, gwnaed penderfyniad i ddod o hyd ac arestio Mr Clark am y drosedd o ymosodiad cyffredin. Daeth y swyddogion o hyd i Mr Stephen Clark am 11.51, ac fe gafodd ei arestio a derbyniodd rybudd yng ngardd ffrynt tŷ ffrind. Ar yr adeg hon, fe wnaeth PC R Williams roi un gefyn ar

arddwrn chwith Mr Clark a gofynnodd ddwywaith i Mr Clark roi ei law dde er mwyn i'r ddwy law gael eu gefynnu i'r blaen. Roedd Mr Clark yn dal ei ffôn symudol a'i sanau yn ei law dde ar yr adeg yma.

5. Ar ôl ceisio gefynnu Mr Clark, honnir fod PC R Williams wedi troi'r gefynnau ar yr arddwrn chwith er mwyn achosi poen a dod â Mr Clark i lawr i'r ddaear. Mae Mr Clark a'r ddau swyddog yn cael eu hunain ar y ddaear hefo Mr Clark i ddechrau ar ben PC E Williams. Gwnaeth PC R Williams ddal pen Mr Clark ac yna'n fuan iawn hefyd mae Mr Clark yn cael ei ddyrnu yn ei ben a'i wyneb gan PC R Williams naw gwaith.
6. Tra mae Mr Clark ar y ddaear, parhaodd PC R Williams geisio sicrhau'r gefynnau. Mae'r chwistrell Captor yn cael ei ddefnyddio ar ddwywaith. Honnir fod hyn yn ddefnyddio grym gormodol.
7. Ceisiwyd o hyd rhoi'r gefynnau a llwyddir yn y pen draw yn dilyn cymorth gan swyddog heddlu oddi ar ddyletswydd sef y cyn PC Allman. Cafodd Mr Clark ei gloi yn y gefynnau i'w gefn ac fe gerddodd ychydig bellter at y cerbyd heddlu. Tra roedd swyddogion yn trio rhoi Mr Clark yn ddiogel yn cerbyd, fe wnaeth PC R Williams ddefnyddio chwistrell Captor ddwywaith wedyn.
8. O ganlyniad i'r digwyddiad, fe wnaeth Mr Clark ddioddef cleisio i'r wyneb a'r corff a thoriadau i'w arddyrnau.
9. Cwblhawyd adroddiad SAYH ym mis Tachwedd 2023. Roedd achos llys troseddol ar gyfer PC Williams o ran honiadau ynghylch y gafaeliad gwddf a'r 9 dwrn. Ym mis Mai 2025 cafodd PC Williams ei gael yn ddieuog o drosedd o dagu'n fwriadol o ran y gafaeliad gwddf a throsedd o ymosod gan achosi niwed corfforol gwirioneddol o ran y dyrnau.
10. Amlinellir honiadau'r Awdurdod Priodol yn Hysbysiad Rheoliad 30. Yn gryno, honnir fod PC Williams wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol canlynol: defnyddio grym, awdurdod, parch a chwarteisi ac ymddygiad annheilwng o ran 8 digwyddiad unigol o ddefnyddio ei rym wrth arestio Mr Clark.

11. Mae PC Williams yn ei ymateb Rheoliad 31 yn derbyn yn fras ei fod wedi defnyddio grym fel yr honnir o ran y gafaeliad gwddf, y dyrnau a defnyddio chwistrell Captor. Fodd bynnag, mae'n gwadu fod y grym yn afresymol yn yr amgylchiadau. Mae PC Williams hefyd yn gwadu fel mater o ffaith ei fod wedi defnyddio'r gefynnau a'u troi i achosi poen i Mr Clark neu ei fod wedi disgyn ar Mr Clark neu ei daflu i'r fan heddlu.

Ymdriniaeth y Panel

12. Atgoffodd y Panel ei hun fod baich profi'r honiad ar yr Awdurdod Priodol drwyddo draw. Nid oes rhaid i PC Williams brofi dim. Drwy roi tystiolaeth ar ei ran ei hun, ni wnaeth fabwysiadu unrhyw faich o wrthbrofi'r honiad. Cadwodd y Panel mewn cof fod y safon prawf yn yr achos hwn y cydbwysedd tebygolrwydd. Tra nad oes graddfa lithro, pan mae honiad mor ddifrifol ag yr oedd, mae'n iawn i'r Panel chwilio am dystiolaeth argyhoeddiadol er mwyn ategu'r honiad er mwyn ei brofi. Roedd hyn yn fwy arwyddocaol o ystyried y dystiolaeth heb ei herio o gymeriad da, yr oedd y Panel yn fodlon ei bod yn dangos y byddai ymddygiad PC Williams, pe bai'r honiad yn cael ei brofi, yn gwbl anghyson â'i gymeriad arferol.

13. Roedd y Panel wedi ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr achos gan gynnwys y bwndel o ddogfennau a gytunwyd, y dystiolaeth cymeriad a gyflwynwyd er mwyn cynorthwyo PC Williams, y ffilm camera corff a gymerwyd gan swyddogion yn y fan a'r lle a'r ffilm ffôn symudol a gymerwyd gan aelod o'r cyhoedd. Cynorthwywyd y Panel hefyd gan dystiolaeth ar lafar Mr Clark, PC E Williams, y cyn PC Allman, PC Iles a PC R Williams.

14. Gwnaeth y Panel ystyried dadleuon Cwnsler yr Awdurdod Priodol a Chwnsler PC Williams.

Materion cyffredinol.

15. Cyn dod i gasgliad ar fanylion bob honiad, ystyriodd y Panel y ffactorau effaith cychwynnol yn berthnasol i arestiad Mr Clark yr ystyriodd a gynorthwywyd gan

y dystiolaeth ger ei fron. Cafodd y Panel gymorth mawr yn hyn o beth gan y ffilm o'r cyfweiliad cychwynnol hefo cyn gymar Mr Clark a dadansoddiad PC R Williams a PC E Williams a roddwyd yn eu dystiolaeth ar lafar.

16. Ystyriodd y Panel ei bod yn glir fod cyn gymar Mr Clark wedi cwyno am ymosodiad. Roedd dystiolaeth fod Mr Clark wedi bod yn yr eiddo'r bore hwnnw o dan ddylanwad cyffuriau a'i fod wedi'i wthio allan o'r eiddo gan blentyn y ddau, a oedd oddeutu 10 oed. Roedd y plentyn wedi cynhyrfu ac yn crio. Cafodd PC Williams wybod gan ei gyn gymar fod Mr Clark hefo hanes o fod yn dreisgar ac roedd wedi dal cyllell at ei gwddf o'r blaen. Awgrymodd y wybodaeth gan y cyn gymar fod Mr Clark yn afresymol ac yn anwadal ac roedd ganddo duedd i fod yn dreisgar. Roedd gwybodaeth ei fod o dan ddylanwad cyffuriau ar hyn o bryd, ei fod hefo problemau iechyd meddwl a'i fod yn byw adeilad allanol ffrind. Dywedodd cyn gymar Mr Clark ei bod ofn y byddai'n dychwelyd.
17. Ystyriodd y Panel fod y ffactorau hyn yn gredadwy ac wedi arwain at sefyllfa beryglus iawn gan fod Mr Clark o bosib yn arfog hefo cyllell, ar gyffuriau ac yn gallu bod yn dreisgar. Cytunodd PC Iles yn ei dystiolaeth ar lafar y byddai'r ffactorau hyn yn awgrymu sefyllfa beryglus iawn. Ystyriodd y Panel y cyddestun hwn wrth ystyried y defnyddiwyd grym i ddechrau. Nododd y Panel nad oedd dim her i'r penderfyniad fod arestio Mr Clark yn angenrheidiol a chyfreithlon.
18. Ystyriodd y Panel y dystiolaeth cymeriad a roddwyd gan PC Williams. Nododd nad oedd dystiolaeth fod PC Williams erioed wedi bod mewn gwrandawiadau disgyblu yn ystod ei yrfa o 20 mlynedd yn yr heddlu. Y dystiolaeth cymeriad a oedd ger bron y Panel oedd fod PC Williams yn dawel o dan bwysau a'i fod yn gymesur a phwyllog wrth ymdrin hefo'r cyhoedd.
19. Ni ystyriodd y Panel fod unrhyw ddadl ffeithiol o ran paragraffau 1 a 2 o'r Honiad. Ymhellach, ni awgrymwyd fod y paragraffau hyn yn cyfateb i dorri unrhyw un o'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol a'u bod yn ffeithiau cefndirol. Felly, gwnaeth y Panel y casgliadau canlynol:

Allegation 3 – Wedi rhoi'r gefyn ar Mr Clark, a oedd yn cydymffurfio, fe wnaethoch wedyn ddefnyddio grym afresymol yn ei erbyn mewn unrhyw un neu'r bob un o'r ffyrdd canlynol (...)

a) Am 11.52.56 fe wnaethoch ddefnyddio'r gefynnau er mwyn achosi poen i Mr Clark ar ei arddwrn chwith.

20. Ystyriodd y Panel o'r dechrau nad oedd Mr Clark yn cydymffurfio. I ddechrau, fe wnaeth ganiatáu i'r gefyn gael ei roi ar ei law chwith ond bron yn syth mi wnaeth ddechrau wrthod ymgais y swyddogion i osod y gefyn ar ei arddwrn dde. Nododd y Panel fod y ffilm yn dangos nad ydy Mr Clark yn gwrando ar unrhyw gyfarwyddiadau ar lafar i roi ei law dde. Ystyriodd y Panel y ffilm a ddangoswyd fod Mr Clark wedi parhau i dynnu ei law i ffwrdd oddi wrth PC E Williams ac wedi gwrthod rhoi ei ffôn symudol iddi, er iddi ofyn amdano.
21. Nododd y Panel hefyd nad oedd Mr Clark yn sefyll yn llonydd ac roedd yn ceisio symud ymlaen. Nododd y Panel dystiolaeth glir Mr Clark ar lafar ac yn ysgrifenedig ei fod wedi dweud yn glir wrth y swyddogion ei efynnu ar y tu blaen oherwydd yr anaf i'w fraich. Mae'n amlwg o'r ffilm na wnaeth erioed ddweud hyn. Gofynnodd y Panel i Mr Clark pam na wnaeth roi ei law i PC R Williams pan ofynnwyd iddo wneud fel y gellid ei efynnu i'r tu blaen. Roedd Mr Clark yn methu ateb a dywedodd nad oedd yn gwybod. Ystyriodd y Panel ei bod yn glir o'r dechrau nad oedd Mr Clark yn cydymffurfio hefo cyfarwyddiadau ar lafar, ei fod yn ceisio gwrthod y gefynnau ac roedd yn ceisio rheoli'r sefyllfa drwy ofyn am eistedd ar y fainc er mwyn iddo roi ei sanau am ei draed.
22. Derbyniodd y Panel dystiolaeth PC R Williams wrth iddo ddweud wrth Mr Clark: "don't tell me what I am doing" ei fod yn ffordd gyfreithlon o gyfleu wrth Mr Clark ei fod yn rheoli'r sefyllfa a'i bod yn rhan dderbyniol o hyfforddiant swyddogion heddlu. Ni wnaeth y Panel ystyried fod tôn llais neu iaith corff PC Williams yn awgrymu anniddigrwydd neu rwystredigaeth hefo Mr Clark. Nododd y Panel fod PC R Williams wedi dweud i ddechrau: "bring your other hand round to the front" a phan ddywedodd Mr Clark nad oedd yn gallu oherwydd ei bod wedi torri, dywedodd PC E Williams: "OK, slowly then" ac roedd y panel yn ystyried fod hyn yn rhesymol. Ystyriodd y Panel na allai Mr Clark fod wedi bod mewn unrhyw amheuaeth ynghylch yr hyn oedd yn ofynnol ganddo. Nododd y Panel fod PC Williams wedi dweud "give me your hand" deirgwaith eto wrth Mr Clark a'i fod wedi gwrthod â gwneud. Ni wnaeth Mr Clark roi ei ffôn symudol ac ni wnaeth gydymffurfio hefo unrhyw gyfarwyddyd ar lafar a roddwyd gan un ai PC E Williams neu PC R Williams.
23. Ystyriodd y Panel y ffilm, y trawsgrifiad a'r dystiolaeth ar lafar a ddangosodd nad oedd Mr Clark yn cydymffurfio o'r dechrau. Nid oedd yn gwneud yr hyn y

gofynnwyd yn glir iddo wneud ac roedd yn ceisio tynnu sylw a rheoli'r hyn oedd y swyddogion yn ei wneud. Ystyriodd y Panel fod y gwrthodiad hwn yn ffactor effaith arall.

24. Ystyriodd y Panel fel mater o ffaith a achoswyd poen i Mr Clark drwy roi'r gefynnau. Nododd y Panel fod y ffilm yn dangos Mr Clark yn griddfan mewn poen ac yn gweiddi gan ddweud: "I've broke my arm one with this one". Ystyriodd y Panel fod y ffilm i'w weld yn awgrymu fod Mr Clark yn gwneud arwyddion ac yn cyfeirio at ei fraich chwith.

25. Nid ydy Panel wedi derbyn cofnodion meddygol Mr Clark. Fodd bynnag, nododd y canlynol a gafwyd o fewn adroddiad ymchwiliad SAYH,

"Mr Clark's hospital records from 10 May 2023 show that he reported pain to his eye, chest, left forearm and right wrist. The notes show that he underwent a CT scan from head to chest, and x-rays of his left forearm and right wrist. The notes show that Mr Clark was found to have no new fractures, and his only diagnosed injury was extensive bruising around his left eye. It was noted that he had an old fracture to his right scaphoid bone (the scaphoid is one of eight small bones that make up the carpal bones of the wrist)."

Roedd tystiolaeth gychwynnol Mr Clark i SAYH yn dweud ei fod yn cymryd amitriptylin ar gyfer y boen yn ei fraich yn dilyn damwain beic modur a gafodd flwyddyn cyn y digwyddiad hwn. Dywedodd Mr Clark:

"I have had a plate put in place, erm, pins put in place. Erm, I've had to go back into hospital cos I was working in Harlech(?) Frozen Foods at the time and I fell in the freezer, and I bent the pin or something and they've had to take some of the things out.

So other than that, I don't know what structure I've got left in my arm."

Yn ei dystiolaeth ar lafar i'r Panel, dywedodd Mr Clark fod ganddo binnau a phlatiau yn ei fraich, nad oedd ganddo gryfder yn ei fraich, ac na allai afael yn unrhyw beth yn iawn. Roedd yn disgwyl llawdriniaeth oherwydd "uno esgyrn" gan fod ei esgyrn yn rhwbio'n barhaus.

26. Ni allai'r Panel fod yn fodlon fod cwynion Mr Clark am boen yn wirioneddol oherwydd rhoi'r gefynnau i'w arddwrn chwith. Ystyriodd y Panel y ffilm yn ofalus iawn a thystiolaeth PC R Williams a PC E Williams a ddywedodd yn glir nad oedd y gefynnau wedi troi a nad oedd dim a oedd yn cael ei wneud a fyddai'n achosi poen i Mr Clark. Ni allai'r Panel nodi unrhyw droi nag unrhyw symudiad gan PC R Williams ar y ffilm a fyddai'n cefnogi'r honiad hwn.

27. Ystyriodd y Panel ei bod hi'n fwy tebygol fod Mr Clark yn ffugio poen sylweddol fel techneg drin er mwyn gwrthod rhoi'r gefynnau. Ystyriodd y Panel fod Mr Clark yn anghyson yn y ffilm a'i dystiolaeth ar lafar ynghylch pa fraich oedd

wedi'i thorri a pha fraich oedd mewn poen. Ni wnaeth PC E Williams "dynnu" ei fraich dde, fel yr awgrymodd Mr Clark. Nododd y Panel y gellir gweld braich dde Mr Clark yn amlwg yn ffilm gan fod Mr Clark yn ceisio siarad hefo rhywun ar y ffôn.

28. Nododd y Panel hefyd dystiolaeth Ms Humphreys a ddywedodd fod Mr Clark yn "cwyno" a'r argraff oedd hi'n ei gael oedd ei "fod yn ddramatig" a bod yr hyn roedd yn ei wneud yn ei hatgoffa o blentyn nad oedd eisiau mynd i'r ysgol. Nid oedd y Panel yn fodlon nad oedd digon o dystiolaeth argyhoeddiadol i ddangos fod PC R Williams wedi troi'r gefynnau i achosi poen i Mr Clark na fod ebychiadau o boen Mr Clark oherwydd unrhyw beth a wnaed gan PC R Williams. Felly, canfu'r Panel na phrofwyd y paragraff hwn o'r honiad.

3b) Am 11.53.10 fe wnaethoch afael yng ngwddf Mr Clark pan oedd ar lawr ac fe wnaethoch ei ddal yn ei wddf am oddeutu 36 eiliad.

29. Nodir na wedir fod PC Williams wedi gafael yng ngwddf Mr Clark ond y mater i'r Panel ydy a oedd hyn yn ddefnydd grym rhesymol yn yr amgylchiadau.

30. Ystyriodd y Panel ei bod yn angenrheidiol gwneud penderfyniad ffeithiol ynghylch sut y gwnaeth Mr Clark a'r ddau swyddog ddarfod ar lawr gan ei fod yn berthnasol i resymolrwydd gafael y gwddf neu fel arall.

31. Dadl yr Awdurdod Priodol ydy fod PC R Williams wedi troi'r gefynnau a chyflawni "handcuff takedown" i Mr Clark. Wrth wneud hyn, syrthiodd Mr Clark ymlaen ac ar ben PC E Williams.

32. Nid ydy'r Panel yn derbyn fod hyn yn cael ei ategu gan y dystiolaeth. Nododd y Panel dystiolaeth Mr Clark ei fod wedi'i "daflu i'r llawr" gan PC R Williams. Dywedodd Mr Clark hyn ar y ffilm ac ailadrodd hyn yn ei dystiolaeth i SAYH a'r Panel.

33. Dywedodd PC E Williams fod Mr Clark i bob pwrpas wedi "gwneud tacl rygbi" arni drwy yrru mewn iddi hefo'i gorff. Tystiolaeth PC E Williams oedd fod hyn yn fwriadol ac fe gafodd sioc. Dywedodd PC E Williams mai dyna pam y gwnaeth hi ddweud "fucking twat" o dan ei gwynt pan gafodd ei tharo i'r ddaear.

34. Dywedodd PC R Williams fod Mr Clark wedi gwthio i ffwrdd oddi wrtho ac i PC E Williams. Gellir gweld hyn o'r ffilm fod PC Williams wedi colli ei afael ar y gefyn. Ystyriodd y Panel y colli gafael hwn yn cyd-fynd hefo fod symudiad Mr Clark yn sydyn ac yn fwriadol yn hytrach na thechneg gynlluniedig o ddod â rhywun i'r llawr i'w gefynnu.
35. Tystiolaeth Mr Parry oedd fod Mr Clark wedi gwthio i mewn i PC E Williams. Ar ben hyn, ar y ffilm ffôn symudol, mae Ms Humphreys yn cael ei recordio'n dweud: "Oh my God fucking twat bach" ar yr adeg mae PC E Williams yn cael ei tharo i'r llawr. Mae hyn yn cyd-fynd hefo datganiad PC E Williams mewn geiriau tebyg sy'n awgrymu ei fod yn rhywbeth bwriadol ar ran Mr Clark.
36. Rhoddodd y Panel bwysau sylweddol ar dystiolaeth PC R Williams pan ddywedodd fod y datblygiad hwn wedi cynyddu'r risg yn sylweddol. Roedd ymwrthedd corfforol difrifol bellach. Nid ydy Mr Clark wedi'i chwilio ac mae o bosib hefo arf. Yn ogystal, mae'r gefyn rhydd yn arf posibl a allai achosi anaf difrifol. Cytunodd y Panel hefo asesiad PC R Williams y byddai'n cynyddu'r lefel risg ymhellach yn yr amgylchiadau hyn pe bai Mr Clark wedi gallu codi. Ystyriodd y Panel ei bod yn rhesymol i PC R Williams geisio atal Mr Clark ar y llawr.
37. Ystyriodd y Panel nad oedd dal gwddf Mr Clark yn ddelfrydol ond ei fod y rhan gyntaf o'r corff roedd PC Williams yn gallu cael gafael arno. Derbyniodd y Panel dystiolaeth PC R Williams ei fod yn ansicr lle roedd PC E Williams yr adeg hon yn y dryswch. Ar ben hyn, nid oedd her i'r ffaith er bod galwad am gymorth wedi'i gwneud wedyn, byddai'n beth amser cyn y cyrhaeddodd swyddogion eraill gan ystyried argaeledd adnoddau yn yr ardal honno.
38. Ystyriodd y Panel fod y ffilm yn dangos anghydfurfiaeth parhaus ar ran Mr Clark. Mae'r Panel yn fodlon o'r ffilm fod Mr Clark wrthi'n ceisio codi a dianc rhag PC Williams. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan adroddiadau cyson PC R Williams o ran yr hyn oedd yn digwydd tra roedd ar y llawr. Nododd y Panel fod Mr Clark yn cael ei weld yn y ffilm yn gwthio ei gorff i gyd hefo'i fraich dde yr oedd wedi dweud o'r blaen nad oedd ganddo rym ynddi a'i bod yn brifo. Ystyriodd y Panel fod y ffilm yn awgrymu fod Mr Clark yn gwthio hefo cryn dipyn o gryfder a'i fod yn ceisio codi ei hun drwy ddefnyddio ei fraich a dianc rhag PC

Williams. Ni chafodd y Panel ei argyhoeddi fod y ffilm yn dangos fod PC Williams yn tynnu gwddf Mr Clark neu fod Mr Clark yn mynd i banig a cheisio anadlu ac wedi mynd yn "llipa". Nododd y Panel y gellir clywed PC Williams yn gweiddi cyfarwyddiadau'n barhaus at Mr Clark i ymddwyn. Argraff gyffredinol y Panel wrth wyllo'r ffilm oedd bod PC Williams yn cael trafferth cadw rheolaeth ar Mr Clark.

39. Nododd y Panel hefyd fod hyn cael ei ategu gan dystiolaeth PC E Williams a oedd, erbyn hyn, yn ceisio atal Mr Clark rhag cicio allan drwy ddal ei goesau hefo'i chorff hi. Ei thystiolaeth hi oedd bod Mr Clark yn parhau i wrthsefyll yn ystod y cyfnod hwn, ei fod yn gryf, ac yn dal i gicio allan a'i bod yn cael trafferth cadw rheolaeth arno.
40. Yng nghyd-destun hyrddiad diweddar PC E Williams i'r llawr ynghyd â'r pryder ychwanegol fod y gefyn rhydd yn arf posibl, ystyriodd y Panel er nad oedd y mwyaf effeithiol, nid oedd gan PC R Williams opsiynau eraill mewn sefyllfa gyflym a oedd yn datblygu ar y llawr. Nododd y Panel dystiolaeth PC lles er na ddysgir y dacteg hon, nid ydy o anghenraid yn dilyn na ellir ei defnyddio os ydyw'n rhesymol yn yr amgylchiadau.
41. Ystyriodd y Panel ei bod yn arwyddocaol fod PC R Williams yn defnyddio'r amser mae'n gafael yng ngwddf Mr Clark i'w dawelu ac yn gofyn iddo ymddwyn fel y gall ollwng ei afael yn ddiogel. Derbyniodd y Panel adroddiad PC R Williams nad oedd eisiau ymestyn yr ystum. Roedd parhau i weiddi cyfarwyddyd iddo "ymddwyn" ym marn y Panel yn cyd-fynd hefo'r bwriad hwn. Ni wnaeth y Panel ystyried nad oedd unrhyw dystiolaeth fod PC Williams wedi gafael yn ei gwddf fel cosb neu wedi ceisio tagu Mr Clark hyd nes iddo fynd yn anymwybodol.
42. Nododd y Panel fod dystiolaeth Mr Clark ei fod wedi mynd yn anymwybodol wrth i PC R Williams afael yn ei wddf ac nad oedd yn gwrthsefyll ond yn cael trafferth anadlu. Fodd bynnag, nododd y Panel fod y ffilm yn dangos brwydr barhaus a oedd yn anghyson hefo honiad Mr Clark ei fod wedi mynd yn anymwybodol. Ni chafodd y Panel ei argyhoeddi yng ngoleuni'r amgylchiadau, nad oedd gafael yn y gwddf yn afresymol nac yn defnyddio grym gormodol. Derbyniodd y Panel dystiolaeth PC R Williams mai hyn oedd y gorau a allai ei wneud yn yr amgylchiadau.

3c) Am 11.53.35 wrth ddal i atal Mr Clark wrth afael yn ei wddf, fe wnaethoch ddyrnu Mr Clark yn y pen neu'r wyneb naw gwaith.

43. Mae'n bwysig i'r Panel fynegi'n glir ei fod yn cydnabod bod y fideo o'r ffilm o'r dyrnau i ben Mr Clark, ar ei ben ei hun, i'w weld yn anghymesur. Fodd bynnag,

mae'r Panel wedi cael y fantais o wyllo'r holl ffilm sy'n arwain at y dyrnau hyn a'r holl ffilm dilynol. Mae'r Panel hefyd wedi cael y fantais o glywed tystiolaeth fyw gan y ddau swyddog a oedd yn ymrafael ar y llawr hefo Mr Clark. Mae'r Panel hefyd wedi gweld y dystiolaeth gan gyn gymar Mr Clark ynghylch ei phryderon a arweiniodd at y penderfyniad i'w arestio. Mae'r Panel wedi gweld y ffotograffau o anafiadau Mr Clark a'r hyn mae wedi'i ddweud am faint ei gydweithrediad ar yr adeg honno. Ystyriodd y Panel yr honiad hwn yng ngoleuni'r holl dystiolaeth a'r hyn a gredwyd gan PC R Williams i fod yn ffactorau risg sylweddol o'r sefyllfa bryd hynny.

44. Mae'r Panel wedi rhoi pwys mawr ar dystiolaeth PC R Williams nad oedd gafael yn y gwddf y mwyaf effeithiol, a'i fod eisiau newid safle a chael Mr Clark o dan reolaeth yn gyflym er mwyn peidio ymestyn gafael yn y gwddf. Ystyriodd y Panel fod hon yn strategaeth resymol a fod PC Williams wedi cydnabod y peryglon cynhenid o ddal gafael yn y gwddf.
45. Ni wnaeth y Panel gytuno hefo awgrym yr Awdurdod Priodol fod y gafael yn y gwddf yn gweithio ac nad oedd rheswm i daro Mr Clark. Ystyriodd y Panel ei bod yn amlwg o'r ffilm a thystiolaeth swyddogion nad oedd hyn yn gweithio. Parhaodd Mr Clark i wrthsefyll yn gorfforol a pheidio ag ymateb i geisiadau gan PC R Williams i "ymddwyn" a "stopio gwrthsefyll" nac i geisiadau mynych gan PC E Williams i stopio.
46. Mae'r Panel yn derbyn nad oedd PC R Williams yn gallu cyrraedd ei faton, taser neu ei chwistrell oherwydd lle roedd ar y llawr. Yn yr amgylchiadau anodd a chyflym hyn, perswadiwyd y Panel fod taro Mr Clark yn opsiwn rhesymol.
47. Nododd y Panel dystiolaeth PC lles fod dyrnau tynnu sylw'n cael eu dysgu. Felly roedd yn fodlon fod hwn yn opsiwn rhesymol i PC Williams geisio cael cydymffurfiaeth er mwyn galluogi iddo ollwng gafael ar ei wddf.
48. Mae'r Panel yn nodi barn yr Awdurdod Priodol y byddai naw ergyd heb saib i'r wyneb yn cael ei hystyried yn afresymol. Nododd y Panel dystiolaeth PC R Williams hefyd ei fod yn taro hefo'i law chwith (mae'n llaw dde) a'i fod yn methu, oherwydd lle roedd ar y llawr, yn defnyddio llawer o rym hefo pob ergyd.

49. Nododd y Panel hefyd fod PC Williams yn gweiddi ar Mr Clark i “stopio gwrthsefyll” erbyn y dyrnu. Dywed tystiolaeth PC R Williams ei fod wedi parhau i ddyrnu hyd nes iddo teimlo fod ymwrthedd Mr Clark wedi lleihau.
50. Nid oes ffordd o ddweud o’r ffilm yr hyn oedd PC Williams yn ei deimlo pan oedd ei gorff yn cysylltu hefo Mr Clark. Fodd bynnag, nid oes gan y Panel reswm amau ei adroddiad o’r tensiwn hwnnw a’r ymwrthedd a deimlodd gan Mr Clark. Derbyniodd y Panel dystiolaeth PC Williams ei fod wedi symud ymlaen yn syth at dechneg atal ar y llawr cymeradwy unwaith roedd Mr Clark yn gwanhau. Nododd y Panel nad oedd ergydion pellach nag unrhyw gicio neu weithrediadau eraill gan PC Williams a fyddai’n awgrymu colli hunanreolaeth neu fod PC Williams yn ceisio cosbi Mr Clark.
51. Rhoddodd y Panel bwys sylweddol i dystiolaeth PC R Williams a ategwyd gan PC E Williams a’r ffilm. Nododd y Panel fod gan PC R Williams oddeutu 20 mlynedd o brofiad fel swyddog ymateb ac wedi gwneud cannoedd o arestiadau. Ystyriodd y Panel nad oedd tystiolaeth ddigonol fod yr ergydion oherwydd ei fod wedi colli ei dymer a hunanreolaeth. Ystyriodd y Panel nad oedd dim a ddywedodd PC R Williams neu a oedd yn amlwg o’r ffilm a oedd yn tanseilio ei adroddiad ei fod yn ceisio ei orau yn yr amgylchiadau anodd i arestio unigolyn treisgar a gwrthwynebus. Felly, penderfynodd y Panel fod yr ergydion i Mr Clark yn ddefnyddio grym rhesymol yn yr amgylchiadau hyn.

3 d) Am 11.56.13 fe wnaethoch roi chwistrell analluogi yn wyneb Mr Clark wrth iddo orwedd ar y llawr.

52. Nesaf, fe wnaeth y Panel ystyried a oedd yn angenrheidiol, rhesymol a chymesur defnyddio grym ar ffurf chwistrell Captor tra roedd Mr Clark ar y llawr. Nododd y Panel pan gafodd y chwistrell ei defnyddio, roedd PC R Williams dal wedi methu rhoi llaw dde Mr Clark yn y gefynnau. Mae Mr Clark yn gorwedd ar y llawr yn cwyno am ei lygad. Sylwodd y Panel o’r trawsgrifiad o’r ffilm fod Mr Clark wedi cael 5 gorchymyn i dawelu gan PC E Williams a 3 gorchymyn i stopio cyn cael y chwistrell. Fe wnaeth PC E Williams hefyd ddweud wrth Mr Clark ddim llai na thair gwaith y byddai’n cael chwistrell pe bai ddim yn tawelu. Ar ben hyn, dywedodd PC R Williams wrth Mr Clark 4 gwaith cyn iddo cael chwistrell i roi ei law. Dywedwyd wrtho hefyd ddwywaith gan PC R Williams i ymddwyn a 5 gwaith i stopio gwrthsefyll.

53. Derbyniodd y Panel adroddiad PC R Williams fod y can yn ddiffygiol a nad oedd yn gweithio. Er bod y nwy wedi dianc, ychydig o chwistrell a gafodd ei ddefnyddio. Fodd bynnag, ystyriodd y Panel fod defnyddio'r chwistrell yn rhesymol, angenrheidiol a chymesur yn yr amgylchiadau hyn oherwydd nad oedd Mr Clark yn cydweithredu o hyd ac nad oedd y gefynnau wedi'u cloi. Nid oedd yn ymateb i orchmynion mynych ar lafar. Ystyriodd y Panel fod y ffactorau effaith cychwynnol ar waith o hyd. Ystyriodd y Panel hefyd oherwydd yr ymrafael i atal Mr Clark, nid oedd yn rhesymol i PC R Williams gymryd cam yn ôl i ddefnyddio'r chwistrell o'r pellter a argymhellir. Derbyniodd y Panel y byddai gwneud wedi caniatáu i Mr Clark godi o bosib.

54. Ystyriodd y Panel ei bod yn arwyddocaol o'r ffilm mai PC E Williams awgrymodd defnyddio'r chwistrell gyntaf. Dywedodd PC E Williams wrth y Panel yn ei thystiolaeth ar lafar nad oedd hi erioed wedi defnyddio ei chwistrell yn ei gwasanaeth o 10 mlynedd fel swyddog ymateb. Ystyriodd y Panel fod hyn yn dystiolaeth gref iawn ei bod wedi ystyried hon yn sefyllfa hynod gyfnewidiol hefo unigolyn a oedd angen defnyddio grym i'w gael o dan reolaeth. Yn amlwg, nid oedd gorchmynion ar lafar yn gweithio, ac nid oedd Mr Clark yn ymateb i erfyniadau i dawelu. Ystyriodd y Panel fod defnyddio grym wrth ddefnyddio chwistrell Captor yn yr amgylchiadau hyn yn rhesymol.

3e) Am 11.57.07 fe wnaethoch ddefnyddio neu geisio defnyddio chwistrell analluogi yn wyneb Mr Clark wrth iddo orwedd ar y llawr.

55. Am yr un rhesymau a amlinellir uchod, ni wnaeth y Panel ystyried fod hyn yn ddefnyddio grym yn afresymol. Mae'r dystiolaeth yn y ffilm a gan PC E Williams a PC R Williams yn dweud fod Mr Clark yn parhau i wrthsefyll ac nid oedd yn ymateb i orchmynion ar lafar. Roedd y chwistrell yn ddiffygiol pan gafodd ei ddefnyddio gyntaf ac roedd i'w weld yn cael dim effaith ar Mr Clark. Roedd y ddau swyddog yn parhau i ddefnyddio gorchmynion ar lafar er mwyn tawelu Mr Clark ac er mwyn iddo gydweithredu a nid oedd hyn yn cael effaith amlwg. Perswadiwyd y Panel o'r ffilm fod Mr Clark yn parhau i wrthod pob ymdrech i gloi ei law arall yn y gefynnau. Nododd y Panel o'r ffilm fod Mr Clark yn defnyddio ei law dde i ddal llaw PC E Williams yn dynn iawn a'i bod yn cwyno ei fod wedi ei phinsio hi. Nododd y Panel y gellir gweld yn glir yn y ffilm ei bod yn gorfod ymgodymu rhyddhau ei llaw. Mae hyn er adroddiad Mr Clark i'r Panel fod ganddo afael gwael yn ei law dde oherwydd ei anaf. Nododd y Panel fod yr Awdurdod Priodol wedi awgrymu wrth groesholi PC R Williams mai ei dechneg

ef a arweiniodd at yr anhawster o roi gefynnau. Ystyriodd y Panel brofiad PC R Williams a daeth i'r casgliad fod yr anhawster yn fwy tebygol oherwydd gwrthwynebiad Mr Clark. Yn yr amgylchiadau hyn, ystyriodd y Panel nad oedd defnyddio'r chwistrell Captor ymhellach yn afresymol.

3 f) Am 12.00.54, wedi mynd â Mr Clark i gefn fan heddlu, fe wnaethoch daflu neu ollwng Mr Clark ar lawr y cawell yng nghefn y fan.

56. Nododd y Panel ar ôl i'r cyn PC Allman a oedd oddi ar ddyletswydd gyrraedd, fe wnaeth y tri allu cloi Mr Clark mewn gefynnau a'i ddwylo tu ôl i'w gefn. Nododd y Panel dystiolaeth y cyn PC Allman fod Mr Clark yn parhau i wrthwynebu, ac roedd PC Allman yn cael trafferth dod â'i fraich rownd ei gefn.
57. Gofynnwyd i Mr Clark os oedd am fynd i'r fan ac fe ddywedodd y byddai pe bai ddim yn cael ei ymosod ymhellach. Ymddengys o'r ffilm fod Mr Clark yn cerdded i'r fan heb lawer o wrthwynebiad. Ond unwaith mae'n y fan mae'n rhoi ei goesau allan er mwyn paratoi ei hun ac atal unrhyw ymgais i'w roi yn y fan. Honnir fod PC R Williams wedyn wedi codi Mr Clark ac un ai wedi'i daflu neu ei ollwng yng nghefn y fan. Nododd y Panel fod PC R Williams wedi gwadu'r honiad hwn ac nad oedd tystiolaeth gan un ai PC E Williams neu PC Allman fod PC R Williams wedi taflu Mr Clark i'r fan.
58. Ystyriodd y Panel fod y ffilm o'r SCCH yn rhoi'r olwg orau o'r digwyddiad hwn. Wedi ystyried yn ofalus, nid oedd y Panel yn fodlon fod y ffilm yn dangos fod PC R Williams un ai wedi taflu neu ollwng Mr Clark. Nododd y Panel fod PC R Williams, PC E Williams a'r cyn PC Allman i gyd yn dal Mr Clark ac yn ceisio ei roi yn y fan. Roedd y Panel yn methu gweld unrhyw symudiad ymlaen ar y ffilm a fyddai'n awgrymu fod PC R Williams wedi taflu Mr Clark. Yn ogystal, mae PC R Williams yn parhau i afael yn Mr Clark hyd yn oed os yw'n cael trafferth ond nid yw'n gollwng Mr Clark nac yn tynnu ei freichiau i ffwrdd er mwyn achosi iddo syrthio. Ystyriodd y Panel fod tystiolaeth annigonol i'w argyhoeddi fod PC R Williams wedi taflu neu ollwng Mr Clark fel yr honnir.

3g) Am 12.01.29 fe wnaethoch ddefnyddio, neu geisio defnyddio chwistrell analluogi yn wyneb Mr Clark wrth iddo orwedd ar lawr y fan heddlu; ac

3h) Am 12.03.02 fe wnaethoch ddefnyddio chwistrell analluogi yn wyneb Mr Clark wrth iddo orwedd ar lawr fan yr heddlu.

59. Casglodd y Panel y materion hyn at ei gilydd gan fod ei resymu'n eithaf tebyg. Nododd y panel er fod Mr Clark i'w weld yn cytuno mynd i'r fan i ddechrau a dim ond pan ofynnwyd iddo fynd i'r fan y gwnaeth ddychwelyd i'w ymddygiad gwrthryfelgar ac anrhagweladwy. Derbyniodd y Panel dystiolaeth PC R Williams ei bod yn fwy diogel i Mr Clark fod yn y fan lle gallai gael ei gludo er mwyn cael cymorth meddygol. Dechreuodd Mr Clark ddefnyddio ei goesau er mwyn cicio. Yn y pen draw, pan gafodd ei droi rownd fe wnaeth wrthod rhoi ei goesau'n ôl yn y fan fel y gellid cau'r drws.
60. Derbyniodd y Panel, wrth edrych yn ôl, y gallai'r weithred o roi Mr Clark yn y fan fod wedi cael ei chydlynu'n well. Fodd bynnag, cofiodd y Panel mai ei rôl oedd dim beirniadu gweithrediadau PC R Williams wrth edrych yn ôl. Atgoffodd ei hun hefyd fod PC R Williams newydd fod mewn ffræ dreisgar a'i fod yn amlwg wedi blino ac allan o wynt. Ystyriodd y Panel nad oedd yn afresymol unwaith roedd penderfyniad wedi'i wneud i roi Mr Clark yn y fan er mwyn parhau hefo'r cynllun hwnnw, hyd yn oed pan ddechreuodd fod yn wrthryfelgar eto.
61. Derbyniodd y Panel fod gefynnau coesau'n opsiwn posibl ond o ystyried yr anawsterau wrth gloi'r gefynnau eraill, efallai byddai wedi achosi anhawster pellach. Yn yr un modd, byddai disgwyl am swyddogion eraill i gyrraedd wedi oedi Mr Clark yn cael sylw meddygol ac o bosib wedi caniatáu i sefyllfa anodd ddatblygu pe bai unigolion wedi cyrraedd er mwyn cynorthwyo Mr Clark. Nododd y Panel fod PC R Williams wedi gadael i PC E Williams geisio perswadio Mr Clark fynd i'r fan ac ni wnaeth symud yn syth i ddefnyddio grym pellach. Ystyriodd y Panel ei fod yn glir o'r ffilm nad ydy Mr Clark yn mynd i gael ei berswadio i fynd i'r fan ar ei ben ei hun.
62. Nododd y Panel fod PC R Williams hefyd wedi ceisio defnyddio gorchmynion ar lafar i berswadio Mr Clark i'r fan heb unrhyw lwyddiant. Nid oes tystiolaeth ar y ffilm a fyddai'n awgrymu fod PC R Williams yn ceisio cosbi Mr Clark nac wedi colli ei dymer.
63. Ystyriodd y Panel er fod Mr Clark yn cwyno fod ei braich "wedi'i thorri", canfuwyd wedyn fod hyn yn anwiredd. Derbyniodd y Panel er fod gan Mr Clark anaf amlwg i'w lygad a'i fod yn cwyno am boen yn ei fraich, nid oedd hyn yn ei atal rhag parhau i wrthod pob ymdrech i'w roi yn y fan. Nododd y Panel hefyd

er ei fod wedi ei efynnu i'r cefn, parhaodd Mr Clark i gicio a rhoi ei hun mewn ystum lle na ellid cau drysau'r fan yn ddiogel.

64. Mae'r Panel yn flaenorol wedi derbyn nad oedd chwistrell PC R Williams wedi cael ei ddefnyddio'n gywir yn ystod yr ymrafael yn yr ardd flaen ac ymddengys o'r ffilm ei fod wedi parhau i beidio gweithio. Yn yr amgylchiadau hyn, gwnaeth PC E William roi ei chwistrell hi i PC R Williams gan ei fod yn nes at Mr Clark. Ystyriodd y Panel fod defnyddio'r ddwy chwistrell yn rhesymol yn yr amgylchiadau. Mae'r Panel yn nodi na wnaeth y cyn PC Allman na PC E Williams godi unrhyw bryderon hefo PC R Williams un ai ar adeg y chwistrellu neu wedyn. Ystyriodd y Panel fod hyn yn dystiolaeth argyhoeddiadol gan unigolion a oedd hefo cyswllt uniongyrchol hefo'r digwyddiad a oedd yn awgrymu eu bod wedi ystyried bod defnyddio grym yn briodol. Er nad oedd y chwistrell o bellter angenrheidiol, nododd y Panel le cyfyngedig y fan a derbyniodd PC R Williams dystiolaeth i wneud iawn ei fod wedi chwistrellu cefn pen Mr Clark. Ystyriodd y Panel fod defnyddio grym yn rhesymol yn yr amgylchiadau hyn.

65. Gan ystyried casgliadau'r Panel o ran y ffeithiau, nid oes dim a all gyfateb i dorri safonau ac felly mae'r achos wedi dod i ben.